## Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 13 Mai 2026

<u>Yn bresennol (yn bersonol)</u>
Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Y Cynghorydd C George a Dr M Havard

<u>Yn bresennol (ar-lein)</u>
Ms H Gwenllian, Mr H Hogg, y Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd V Thomas

<u>Swyddogion yn bresennol</u>
Jason Blewitt a Tim Buckle (Archwilio Cymru), Ceri Kwiecinski, Astari (Archwilio Mewnol), Prif Weithredwr, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Hybrid: 10.00am -11.35am; 11.45am – 12.55pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd M James.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau**.**

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2026 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Havard, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2026.

**4. Log Gweithredu**
Nodwyd.

**5. Gweithgor Amrywio Incwm**
Derbyniwyd adroddiad y Gweithgor Amrywio Incwm a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025. Hysbyswyd yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y grŵp hwn wedi'i drefnu dros dro i'w gynnal ar 10 Mehefin 2026, ond byddai'r swyddogion yn cadarnhau hyn cyn hir.

**Nodwyd.**

**6. Crynodeb o Archwiliad Blynyddol 2025**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jason Blewitt o Archwilio Cymru a gyflwynodd yr adroddiad oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed ers y crynodeb blaenorol o’r Archwiliad fis Mai 2025. Dywedwyd, gan fod y datganiadau ariannol drafft wedi'u derbyn ar ôl y dyddiad cau o 30 Mehefin 2025, nad oedd cyfrifon yr Awdurdod wedi'u blaenoriaethu i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno sef 31 Hydref 2025. Clustnodwyd nifer o wallau a arweiniodd at waith ychwanegol ac felly codwyd ffi ychwanegol am yr archwiliad ariannol. Fodd bynnag, cyhoeddwyd barn ddiamod ar y cyfrifon. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon er bod un mater arwyddocaol wedi'i adrodd mewn perthynas â gwallau sylfaenol o fewn y Gronfa Ailbrisio, er nad yn fater sylweddol, ond y byddai'r Awdurdod yn talu sylw i’r gwallau hyn yn 2025-26.

Dywedwyd, yn unol â'r amserlen a nodwyd yn flaenorol, mai'r dyddiad cau ar gyfer archwilio cyfrifon 2025/26 fydd 30 Medi 2026, a’r cyfrifon i'w cyflwyno erbyn 30 Mehefin. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd Mr Blewitt bod y dyddiadau cau hyn bellach wedi dychwelyd i'w dyddiadau gwreiddiol cyn-covid, fodd bynnag, methodd tua 60% o sefydliadau llywodraeth leol y llynedd â chyflwyno eu cyfrifon mewn pryd, ac y byddai rhestr flaenoriaeth yn cael ei llunio ar gyfer cynnal yr archwiliadau y flwyddyn nesaf.

**Nodwyd.**

[Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n amrywio'r agenda i drafod adroddiad 17/26 ar Gynllun Archwilio ‘Archwilio Cymru’ yr adeg hon.]

**7. Cynllun Archwilio ‘Archwilio Cymru’ 2026**

Dywedwyd bod y Cynllun yn amlinellu rhaglen waith Archwilio Cymru am y flwyddyn nesaf. Cyflwynodd Jason Blewitt y gwaith archwilio ariannol fyddai'n cael ei wneud, gan dynnu sylw at y lefel o berthnasedd fyddai'n cael ei ddefnyddio a’r risgiau i'w harchwilio oedd yn cynnwys prisio rhwymedigaeth/ gwarged net y gronfa bensiwn, prisio’r tir a’r adeiladau, cyflogau’r uwch swyddogion, datgeliadau partïon cysylltiedig, a system llyfr cyfrifon ariannol newydd yr Awdurdod.

Cyflwynwyd y cynllun archwilio perfformiad gan Tim Buckle, a dywedodd bod eu dyletswyddau yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Cymru fod yn fodlon bod yr Awdurdod yn sicrhau gwerth am arian ac yn gweithredu yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Eleni byddai’r gwaith archwilio perfformiad arfaethedig yn cynnwys adolygiad o’r trefniadau seiberddiogelwch; byddai’r amserlen yn cael ei chytuno gyda’r swyddogion yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Hefyd amlinellwyd y ffioedd yn yr adroddiad, fyddai’n codi 5.3% am archwilio ariannol a 2.8% am archwilio perfformiad.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiadau Archwilio Mewnol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ceri Kwiecinski o Astari, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, a roddodd ddiweddariad ar y camau ymlaen tuag at gyflawni Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26, yn ogystal â chrynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd. Hefyd cyflwynwyd adroddiad ar y Rheolaethau Ariannol Allweddol o ran y gyflogres, ac roedd yr archwilwyr yn gallu rhoi sicrwydd sylweddol ynghylch y maes hwn gan wneud un argymhelliad blaenoriaeth isel yn unig. Dywedwyd y byddai’r adroddiad blynyddol ar waith Astari dros y flwyddyn yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor.

**Nodwyd.**

**9. Diweddariad ar Strategaeth Archwilio Mewnol 2026/27 - 2028/29**

Dywedwyd bod ymarferiad 'Deall y Busnes' yn cael ei gynnal bob blwyddyn lle byddai'r tîm Archwilio Mewnol yn ystyried unrhyw newidiadau i'r Awdurdod neu i'r amgylchedd gweithredu, gan gynnwys adolygu canlyniadau’r archwiliadau blaenorol a ffynonellau eraill o sicrwydd. Defnyddiwyd hyn, ynghyd â phrosesau rheoli risg yr Awdurdod ei hun, i gynnal asesiad risg a datblygu cynllun archwilio cadarn, yn seiliedig ar risg.

Roedd y Strategaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 2026/29 wedi'i datblygu yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a'r Tîm o Uwch Arweinyddion. Roedd Tîm Rheoli'r Awdurdod hefyd wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynllun drafft. Cyflwynwyd y cynllun gerbron y Pwyllgor i'w gymeradwyo y byddai'n bodloni blaenoriaethau ac anghenion yr Awdurdod am sicrwydd.

Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod y cynllun yn ddeinamig ac yn cael ei adolygu drwy gydol y flwyddyn, gan ei fod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Roedd y rhaglen am y cyfnod 2027-29 yn rhaglen ddangosol fyddai'n cael ei diweddaru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd George, **penderfynwyd** cytuno ar y Cynllun Archwilio Mewnol am y flwyddyn 2026-27.

**10. Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli**

Dywedwyd, fel rhan o'r broses o gynllunio archwilio, bod Archwilio Cymru angen sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Roedd llythyr gan Archwilio Cymru, oedd wedi'i atodi i'r adroddiad, yn gofyn am ystyriaeth a dealltwriaeth dogfennol ar nifer o'r meysydd llywodraethu oedd yn effeithio ar eu harchwiliad o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Roedd y rheolwyr wedi diweddaru eu hymatebion i'r ymholiadau Archwilio yn yr atodiadau, a gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r ymatebion hynny yn ffurfiol.

Roedd rhai Aelodau wedi cwestiynu gwerth y ddogfen gan fod nifer o'r ymatebion heb newid o'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd y swyddogion nad oeddent wedi derbyn unrhyw adborth i ddangos nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn ofynnol, fodd bynnag, lle bu newidiadau, byddai'r rhain yn ffocws i'r Archwilwyr yn ystod y flwyddyn nesaf. Awgrymwyd gwelliant bach i'r ymatebion o ran trosolwg ar faterion twyll a thrafodion a pherthnasoedd â phartïon cysylltiedig (tudalennau 40 a 49), ac awgrymwyd y dylai diwygio'r brawddegau dan sylw gael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr ar ôl ymgynghori â Chadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu'r Gwasanaethau Corfforaethol.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan Ms Gwenllian, **penderfynwyd** dirprwyo'r dasg o gytuno ar ymatebion y rheolwyr i lythyr Ymholiadau Archwilio Cymru ynghylch yr archwiliad o'r datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 i'r Prif Weithredwr ar ôl ymgynghori â Chadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu'r Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn caniatáu mân newidiadau i'r geiriad fel y trafodwyd yn y cyfarfod.

**11. Log Gweithredu ar gyfer yr Archwiliad o'r Perfformiad Allanol a'r Archwiliad Mewnol (yn diweddu 31 Mawrth 2026+)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan y Pwyllgor, bod Log Gweithredu ar Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu, i gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar bob un o'r camau gweithredu. Eglurwyd y byddai'r camau hynny oedd yn deillio o'r adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd y bore hwnnw, yn cael eu hychwanegu at y Log Gweithredu yn dilyn y cyfarfod.

Nodwyd bod y swyddogion wedi adolygu'r dyddiadau i gwblhau nifer o'r camau gweithredu, a cheisiwyd cymeradwyaeth i'r dyddiadau gweithredu diwygiedig.

Gan ganolbwyntio ar y camau gweithredu mewn coch ac ambr, gofynnodd yr Aelodau sut fyddai'r camau sy'n deillio o’r swyddi gwag yn cael eu gweithredu. Ymatebodd y swyddogion bod y camau recriwtio eisoes wedi cychwyn i lenwi swydd ychydig yn wahanol, fodd bynnag barnwyd bod y risgiau o beidio â symud ymlaen â’r camau gweithredu hyn, yn isel, a’i bod yn bosibl gallu cyflawni rhai o’r camau hyn mewn ffordd wahanol. Mewn ymateb i awgrym, nodwyd gan y swyddogion nad oedd Archwilio Cymru yn clustnodi blaenoriaethau risg ar gyfer eu camau gweithredu, mai'r Awdurdod oedd i benderfynu sut y byddai'n ymateb.

Ar gynnig y Cynghorydd George, a eiliwyd gan y Cynghorydd Thomas, **penderfynwyd** cytuno ar y dyddiadau gweithredu diwygiedig ar gyfer camau gweithredu Archwilio Cymru.

**12. Adroddiad ar y Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant – Cynnydd yn erbyn y Dangosyddion a’r Prosiectau Blaenoriaeth/ Y Camau Gweithredu ar y Meysydd Newid Corfforaethol/ Y Camau Gweithredu ar Welliannau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y Cyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026**

Dywedwyd bod yr adroddiadau hyn yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27 ac yn erbyn yr hyn a gyflawnwyd yn y maes newid corfforaethol o fewn y Cynllun Cyflawni, yr elfennau llywodraethu yn yr adroddiadau i Lywodraeth Cymru, a’r hyn a gyflawnwyd drwy’r cynlluniau cyflawni, camau Llywodraeth Cymru a’r camau gwella o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Roedd hyn i gyd yn rhan o fonitro rheoli risgiau a nodir yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiadau yn cyflwyno’r perfformiad am y flwyddyn ariannol 2025/26.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar wahanol agweddau ar yr adroddiad gan gynnwys nifer yr ymwelwyr, cwynion am lwybr yr arfordir, nifer y gwirfoddolwyr, allyriadau carbon, cynnydd ar y gwaith yn Nhraeth Mawr, a chyllid y prosiect Y 1000 Diwrnod Cyntaf a ystyriwyd yn bwysig i alluogi plant a theuluoedd i ddysgu’r sgiliau a magu'r hyder i fynd allan i'r awyr agored, a thrwy hynny osod y sail i weddill eu hoes. Atebwyd y rhain gan y swyddogion, fodd bynnag cytunwyd y dylid ceisio rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros y gostyngiad mewn cwynion am lwybr yr arfordir ac am y gyllideb ar gyfer Traeth Mawr.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.35am a 11.45am]

**13. Adroddiad Gwasanaethau Pobl**

Roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar iechyd a diogelwch gan gynnwys damweiniau a digwyddiadau yn chwarter cyntaf 2026, diweddariadau polisi, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o weithredu Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025, absenoldeb salwch y staff, hyfforddiant a datblygu, gwirfoddoli a materion datblygu'r Aelodau.

Ymddiheurodd y swyddog am rywfaint o ddyblygu gwybodaeth yn yr adroddiad. Dywedodd bod adrodd am ddigwyddiadau oedd bron â digwydd yn cael ei annog, a phleser oedd gweld yr adroddiadau hyn yn cynyddu. Dywedwyd hefyd nad oedd unrhyw duedd sylfaenol yn yr absenoldeb salwch, a bod y cynnydd sydyn yn y chwarter cyntaf i'w briodoli i annwyd a'r ffliw tymhorol. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn cwblhau gweithdai hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu, bod 44% o'r Aelodau wedi mynychu'r pedair sesiwn, tra bod 4 Aelod arall (22%) wedi mynychu tair o'r pedair sesiwn.

Atebodd y swyddogion nifer o'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr Aelodau, ond cytunodd y swyddogion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cwestiwn a oedd gwell arwyddion wedi'u gosod yng Nghaeriw ynghylch cŵn ar dennyn. Dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod bod y cynnydd o ran cynnal Adolygiadau Datblygu Personol yr Aelodau yn araf ond yn barhaus, fodd bynnag byddai cwblhau'r gwaith yn galluogi teilwra'r gwaith datblygu a hyfforddi yn ôl anghenion yr Aelodau.

**Nodwyd.**

**14. Cynllun Parhad Busnes, Adferiad ar ôl Trychineb TG**

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gweithgareddau profi ac adolygu diweddar a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Cynllun Parhad Busnes a'r Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TG, a chreu Cynllun Rheoli Digwyddiadau Seiber newydd, a chrynhoi'r canlyniadau. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r sicrwydd bod yr Awdurdod wedi'i baratoi'n dda ar y cyfan i ymateb i achosion sylweddol o darfu, ac adfer o'r tarfu hwnnw. Fodd bynnag, roedd camau gwella parhaus wedi'u clustnodi, ac y byddent yn cael eu rhoi ar waith i wella effeithiolrwydd a chadernid y trefniadau.

Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Pennaeth Datgarboneiddio bod y tîm ymateb brys yn hyblyg, gydag aelodau ychwanegol o staff yn cael eu hychwanegu at y tîm craidd o uwch reolwyr a'r Pennaeth Cyfathrebu, yn dibynnu ar y digwyddiad. Cytunwyd bod cyfathrebu clir yn hanfodol, a nodwyd bod system rhaeadru drwy'r rheolwyr ar waith.

**Nodwyd.**

[Ymddiheurodd y Cynghorydd Price a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr eitem ganlynol.]

**15. Perfformiad y Gyllideb am y 12 mis yn dod i ben mis Mawrth 2026**

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian bod y dangosyddion yn nodi na fyddai'r Awdurdod yn diweddu’r flwyddyn mewn diffyg ariannol oherwydd setliad munud olaf gan Lywodraeth Cymru. Roedd y tîm tua pythefnos yn hwyr o ran paratoi'r cyfrifon, a bod oedi pellach yn debygol gan fod rhai gwerthusiadau tir ac adeiladau heb ddod i law, ac ar draws y sector, nid oedd unrhyw eglurder ynghylch pa ffigurau mynegai-gysylltiedig fyddai'n cael eu defnyddio.

Gofynnodd yr Aelodau pa bryd oedd disgwyl y byddai'r cyfrifon yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau, a dywedwyd nad oedd sicrwydd y byddai cyfrifon yr Awdurdod yn barod erbyn y dyddiad 30ain o Fehefin i'w cyflwyno i Archwilio Cymru, ac y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor neu'r Awdurdod wrth iddynt ddod ar gael, neu y byddent yn cael eu dosbarthu drwy’r e-bost.

**Nodwyd.**

**16. Eithrio’r Cyhoedd**

Ar gynnig **Dr Havard**, a eiliwyd gan y Cynghorydd George, **PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu**.**

**17. Polisi Rheoli Risg – Cofrestr Risg a Datganiad Rheoli Risg**

Roedd yr adroddiad yn gyfle i'r Aelodau wneud sylwadau a thrafod fersiwn wedi'i diweddaru o'r Gofrestr Risg, yr Adroddiad Sicrwydd Ail Linell, a'r Datganiad ar y Parodrwydd i Dderbyn Risg. Yn ogystal, cyflwynwyd gwybodaeth ar yr archwiliadau dwfn a wnaed ers y cyfarfod blaenorol, ac ar unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol. Nodwyd, yn dilyn trafodaeth yn y gweithdy ar Lywodraethu Risg, y byddai diweddariad ar y Gofrestr Risg yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfodydd yr Awdurdod.

**Nodwyd.**

## 18. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

**Penderfynwyd** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2026 heb eu diwygio. |